

## Data Troseddau 20mya

Dechreuwyd ailgyflwyno gorfodi mewn ardaloedd 20mya ddechrau Tachwedd. Roedd hyn mewn ardaloedd gorfodi 20mya a oedd eisoes yn bodoli na chafodd eu heffeithio gan y newid i'r ddeddfwriaeth ac a oedd â'r arwyddion cywir wedi'u gosod.

Ataliodd GanBwyll orfodi 20mya dros dro ym mis Medi 2023 yn dilyn y newid i'r ddeddfwriaeth. Gwnaed y penderfyniad am sawl rheswm. Roedd hyn yn cynnwys rhoi amser i bobl addasu i'r newid, caniatáu i awdurdodau Priffyrdd addasu arwyddion ffyrdd a Gorchmynion Rheoliadau Traffig, ac oherwydd bod sesiynau ymgysylltu ar ochr y ffordd yn cael eu blaenoriaethu. Gorffennodd y cyfnod monitro data hwn ar y 18fed Mawrth 2024, yn dilyn cymeradwyaeth gan Brif Gwnstablaid, ac mae unrhyw achosion o oryrru mewn ardal 20 milltir yr awr yn cael eu trin fel mewn unrhyw derfyn cyflymder arall.

Mae GanBwyll, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru a phartneriaid eraill wedi parhau i gynnal sesiynau ymgysylltu er mwyn helpu gyrwyr i addasu i'r newid. Bydd y sesiynau hyn yn parhau drwy gydol 2024 gyda thimoedd ymroddedig yn gweithio o dan GanBwyll i'w cyflwyno o dan yr enw 'Ymgyrch Ugain'.

### Data troseddau Canolbarth a Gorllewin Cymru - 20mya

	Medi-23	Hyd-23	Tach-23	Rhag-23	Ion-24	Chwef-24	Maw-24	Ebr-24	Mai-24	Meh-24	Gorff-24	Awst-24	Medi-24
Cyfanswm y troseddau	0	0	95	119	134	351	514	491	3,650	5,711	6,002	7,326	6,840
Cyflymder cyfartalog y drosedd	N/A	N/A	28.3	27.9	28.3	28.3	28.5	30.4	28.3	28.1	28.4	28.3	28.4
Cyflymder uchaf y drosedd	N/A	N/A	37	37	39	41	45	70	88	80	67	59	62

### Data troseddau Gogledd Cymru - 20mya

	Medi-23	Hyd-23	Tach-23	Rhag-23	Ion-24	Chwef-24	Maw-24	Ebr-24	Mai-24	Meh-24	Gorff-24	Awst-24	Medi-24
Cyfanswm y troseddau	0	0	0	0	0	0	8	251	636	892	5,199	7,958	6667
Cyflymder cyfartalog y drosedd	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	28.8	31.2	32.7	32.4	28.8	28.7	28.6
Cyflymder uchaf y drosedd	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	33	51	88	82	88	56	85